# Ymchwiliad Covid-19 y DU
# Ymgynghoriad ar y Cylch Gorchwyl drafft - crynodeb o ymatebion
# Mai 2022

## Rhagair

Cefais fy mhenodi yn Gadeirydd Ymchwiliad Covid-19 y DU yn Rhagfyr 2021. Fy swydd i yw sicrhau bod yr Ymchwiliad yn gallu cyflawni ei bwrpas orau - i archwilio parpdrwydd ac ymateb y DU i'r pandemig Covid-19 a dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Bydd cwmpas yr hyn fydd yr Ymchwiliad yn edrych arno yn cael ei amlinellu yn y Cylch Gorchwyl. Mae eu cyrhaeddiad eang yn rhoi'r rhyddid i'r Ymchwiliad ymchwilio i agweddau gwahanol o ymateb y DU i'r pandemig. Ar ôl i mi dderbyn Cylch Gorchwyl drafft oddi wrth y Prif Erinidog ym Mawrth, fy mlaenoriaeth oedd cynnal ymgynghgoriad cyhoeddus i sicrhau y gallwn i adlewyrchu cymaint o bryderon y cyhoedd yn fy ngwaith.

Mae'r ddogfen yn amlinellu dadansoddiad annibynnol yr Ymchwiliad o'r ymgynghoriad cyhoeddus hwnnw. Yn seiliedig ar gryfder teimladau gan y cyhoedd, rwy'n awgrymu bod y Cylch Gorchwyl yn caei ehangu a'i ailfframio.

Cefais i'r fraint o gyfarfod â theuluoedd mewn profedigaeth mewn unarddeg o ddinasoedd ledled y DU, a rannodd eu profiadau o golli anwylyn yn ystod y pandemig. Fe wnaethom hefyd dderbyn dros 20,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Ni fuaswn wedi gallu argymell y fath newidiadau clir, penodol i'r Cylch Gorchwyl heb y safbwyntiau adaeiladol a rannodd pobl.

Bydd y Prif Weinidog yn awr yn ystyried fy argymhellion a gobeithiaf dderbyn y Cylch Gorchwyl terfynol yn fuan, er mwyn i'r Ymnchwiliad allu dechrau ei waith o ddifrif.

Hoffwn i ailgadarnhau'r ymrwymiad a wnes i mewn cyfarfodydd â theuluoedd mewn profedigaeth. Bydd pobl a ddioddefodd fwyaf yn ystod y pandemig wrth galon gwaith yr Ymchwiliad. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod yr Ymchwiliad yn hygyrch i bawb yn y DU, a byddaf yn craffu ar effaith y pandemig ar bod agwedd o gymdeithas y DU.

Rwy'n addo rhedeg yr Ymchwiliad yn annibynnol o'r llywodraeth, wedi'i lywio gan egwyddorion tegwch a bod yn agored.

Y Farwnes Heather Hallett

## *Cyflwyniad*

Mae Ymchwiliad Covid-19 y DU yn cael ei sefydlu i archwilio parodrwydd ac ymateb y DU i'r pandemig Covid-19, ac i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Cafodd y Farwnes Hallett, cyn-farnwr llys apêl ei phenodi'n Gadeirydd yr Ymchwiliad yn Rhagfyr 2021. Bydd hi'n arwain yr Ymchwiliad ac mae hi, ers hynny, wedi bod yn adeiladu tîm Ymchwiliad i'w chynorthwyo hi.

Bydd yr Ymchwiliad hwn yn annhebyg i unrhyw ymchwiliad statudol blaenorol yn y DU. Nid yw'n ymchwilio i ddigwyddiad unigol na chyfres o ddigwyddiadau, na pham y digwyddodd. Yn hytrach, bydd yn ymchwilio i sut y tarodd pandemig gwlad gyfan (mewn gwirionedd, pedair gwlad), a sut yr ymatebodd Llywodraeth y DU, Gweinyddiaethau Datganoledig, llywodraeth leol, a llawer o rannau eraill o'r wladwriaeth, ar draws ystod gyfan eu swyddogaethau gwneud penderfyniadau a chyhoeddus bron.

A'r fath gwmpas digynsail posibl, bydd angen i'r Ymchwiliad hwn fod mor glir â phosibl am yr hyn y byddwn yn ymchwilio iddo, a sut y dylem wneud hynny. Bydd hyn yn cael ei amlinellu, ar lefel uchel, yn ein 'Cylch Gorchwyl', fydd yn darparu siâp cyffredinol a therfynau'r pynciau i'w harchwilio. Mae'r Prif Weinidog yn gyfrifol am osod y Cylch Gorchwyl.

I Ymchwiliad sy'n edrych ar bwnc eang fel y pandemig Covid-19, nid yw'n ymarferol i'r Cylch Gorchwyl amlinellu rhestr gynhwysfawr o'r holl faterion fydd yn cael eu trafod. Ni fyddai'n bosibl, nac yn wir yn fuddiol, i adnabod popeth y mae angen i ni archwilio ar y cam cynnar hwn o'n gwaith, a bydd angen i ni gadw'r hyblygrwydd i archwilio materion newydd fel y byddant yn cael eu hadnabod o'r dystiolaeth a gesglir.

Mae'r Cylch Gorchwyl felly yn amlinellu cyfres o bynciau eang, fydd yn cael eu datblygu i restr fanwl o faterion ac ymchwiliadau wrth i'r Ymchwiliad fynd rhagddo. Nid oes angen i fater gael ei restru'n benodol o fewn y Cylch Gorchwyl i ni allu ei drafod, ar yr amod ei fod yn syrthio o fewn un o'r pynciau eang hynny.

## Sut mae'r Cylch Gorchwyl yn cael ei benderfynu?

Cafodd Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer Ymchwiliad Covid-19 y DU ei ddatblygu gan y Prif Weinidog, yn dilyn cyfnod o ymgynghori á'r Farwnes Hallett a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn Yr Alban, Cymru a Gogledd iwerddon, a chafodd ei gyhoeddi ar 9 Mawrth 2022. Gofynnodd y Prif Weinidog i'r Farwnes Hallett gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i'r Cylch Gorchwyl, er mwyn i'r cyhoedd ddylanwadu ar ba faterion y byddai'r Ymchwiliad yn eu hystyried.

O 11 Mawrth hyd 7 Ebrill 2022, fe wnaethom redeg ymgynghoriad i ofyn am safbwyntiau ar beth ddylai'r Ymchwiliad archwilio, a sut y dylem gynnal ein gwaith. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn agored i bawb, a gallai'r cyhoedd gyfrannu ar ein gwefan, trwy e-bost neu drwy ysgrifennu atom. Roedd yn cynnwys pedwar cwestiwn:

1. A yw Cylch Gorchwyl drafft yr Ymchwiliad yn cwmpasu'r holl feysydd rydych chi'n meddwl y dylai'r Ymchwiliad fynd i'r afael â hwy? Ac os nad yw, esboniwch pam.

2. Pa faterion neu bynciau ydych chi'n meddwl y dylai'r Ymchwiliad edrych arnynt gyntaf.

3. Ydych chi'n meddwl y dylai'r Ymchwiliad osod dyddiad diwedd arfaethedig ar gyfer ei wrandawiadau cyhoeddus, er mwyn helpu sicrhau canfyddiadau ac argymhellion amserol?

4. Sut ddylai'r Ymchwiliad gael ei gynllunio a'i redeg i sicrhau bod pobl mewn profedigaeth neu'r rheini sydd wedi dioddef niwed neu galedi o ganlyniad i'r pandemig yn cael gwrandawiad i'w lleisiau?

Fel rhan o'r broses ymgynghori hon, cyfarfu'r Farwnes Hallett á theuluoedd mewn profedigaeth mewn dinasoedd o gwmpas y DU i glywed eu safbwyntiau ar y Cylch Gorchwyl drafft.

Yn gyfochrog, cyfarfu tîm yr Ymchwiliad â chynrychiolwyr o fwy na 140 o sefydliadau mewn trafodaethau 'bord gron', gan gwmpasu themâu fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, gofal iechyd, busnes, ac addysg a phobl ifanc, ymhlith eraill. Mae trawsgrifau o bob un o'r digwyddiadau bord gron hyn ar gael ar ein gwefan.

Fe wnaethom dderbyn cyfanswm o 20,061 ymateb i'r ymgynghoriad, a derbyniwyd 19,903 trwy ein ffurflen ymgynghori ar-lein. Fe wnaethom gomisiynu Alma Economics, ymgynghoriaeth ymchwil annibynnol, i ddadansoddi'r ymatebion a chynhyrchu adroddiad annibynnol cynhwysfawr, gan grynhoi barn ymatebwyr a'r prif themâu a gododd o'r broses ymgynghori. Mae'r adroddiad hwnnw i'w gael ar wahân ar ein gwefan.

Mae'r Farwnes Hallett wedi ystyried yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a daeth i'r casgliad fod nifer o newidiadau yn ofynnol i'r Cylch Gorchwyl i ymateb i'r materion a godwyd. Mae'r ddogfen hon yn ystyried y prif themáu a gafodd eu hadnabod ac mae'n amlinellu'r newidiadau i'r Cylch Gorchwyl y mae hi'n eu hargymell i'r prif Weinidog. Mae'r ffocws yn y ddogfen grynodeb hon ar y safbwyntiau a dderbyniwyd am y Cylch Gorchwyl ei hun, cwestiwn 1 yr ymgynghoriad. Bydd y safbwyntiau rydym wedi'u clywed ar gwestiynau 2, 3 a 4 yn

ffurfio meddwl y Farwnes Hallett ar sut y bydd hi'n rhedeg yr Ymchwiliad cyn gynted ag y bydd y Cylch Gorchwyl wedi cael ei gwblhau.

# Dadansoddiad o'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r canlyniadau

Mae'r adran hon yn archwilio'r prif faterion a gafodd eu codi gan ymatebwyr mewn perthynas â'r Cylch Gorchwyl. Cafodd y rhain eu hadnabod trwy ddadansoddi'r dystiolaeth y gwnaethom ei derbyn, wedi'i gyflawni'n annibynnol gan Alma Economics.

Mewn rhai achosion, cododd ymatebwyr gwestiynau am agweddau manwl o'r ymateb i'r pandemig sydd wedi'u cwmpasu eisoes gan gwmpas eang y Cylch Gorchwyl drafft, hyd yn oed os na chrybwyllir materion manwl yn benodol. Mewn achosion eraill, mae ymatebwyr wedi codi materion sydd ddim yn cael eu cwmpasu gan y Cylch Gorchwyl drafft, na lle gallai'r Cylch Gorchwyl gael ei ddiwygio i wneud ei gynnwys yn eglurach.

# Cwestiwn 1: A yw Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad yn cwmpasu'r holl feysydd yr ydych yn meddwl ddylai gael eu cwmpasu gan yr Ymchwiliad?

## Effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc

Y thema a gafodd ei phwysleisio'n fwyaf eglur yn ystod yr ymgynghoriad oedd y dylai'r Ymchwiliad ystyried effaith benodol y pandemig ar blant a phobl ifanc. Awgrymodd ymatebwyr fod plant wedi cael eu heffeithio mewn ffordd wahanol i oedolion, â risg sylweddol is i'w hiechyd corfforol o heintiad Covid-19, ond nifer o risgiau tymor hirach i'w datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol.

Roedd y Cylch Gorchwyl drafft yn cynnwys darpariaeth i'r Ymchwiliad archwilio effaith y pandemig mewn perthynas â '*chyfyngiadau ar fynychu mewn lleoedd addysg*'. Er y byddai hyn wedi caniatáu ymchwilio i faterion yn deillio o'r cyfyngiadau hynny - megis darpariaeth prydau bwyd ysgol am ddim, effaith anghydraddoldebau mewn mynediad at fand eang a gliniaduron, neu'r effaith ar grwpiau arholiadau - mae'n eglur hefyd y dylai'r Ymchwiliad allu ymchwilio i ystod llawer ehangach o effeithiau y tu hwnt i addysg.

Clywsom trwy'r broses ymgynghori am faterion yn effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n cynnwys:

- **Lleoliadau blynyddoedd cynnar** — gofynnodd ymatebwyr i'r Cylch Gorchwyl gael ei wneud yn eglurach i gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar yn gliriach, gyda phryderon penodol am yr effaith a gafodd cyfyngiadau ar y gwasanaethau hyn ar ddatblygiad cymdeithasol plant ifanc.

- **Amddiffyn plant, gwasanaethau diogelu, a phlant mewn gofal** — cafodd pryderon am amddiffyn plant a materion diogelu eu codi'n aml, a llawer o ymatebion yn crybwyll gweladwyedd gostyngol plant agored i niwed tra bod gwasanaethau fel ysgolion, Meddygfeydd Teulu a chanolfannau plant wedi'u lleihau neu eu cau, a'r effaith a gafodd hyn ar esgeuluso a cham-drin plant.

- **Iechyd meddwl a llesiant** — disgrifiodd ymatebwyr gynnydd mewn gorbryder ac unigrwydd ymhlith pobl ifanc yn ystod y pandemig, ac roeddent yn cwestiynu capasiti'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glasoed i ddiwallu'r anghenion hynny. Nododd llawer o ymatebion hefyd effaith niweidiol y pandemig ar ddatblygiad corfforol a chymdeithasol, gan grybwyll cau lleoliadau hamdden a chwarae megis meysydd chwarae fel ffactor.

- **Plant mewn lleoliadau preswyl diogel** — roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i'r Ymchwiliad ystyried effaith y pandemig ar blant mewn cartrefi plant diogel, megis effaith diffyg cysylltiad yn y cnawd â rheini. Cododd ymatebwyr faterion hefyd am yr effaith ar blant mewn lleoliadau gwarchodol, megis effaith cyfnodau estynedig o fod yn gaeth i'w hystafelloedd, a mynedfa gyfyngedig at addysg.

- **Babanod a gwasanaethau mamolaeth** — cafodd effaith y pandemig ar fabanod ei nodi'n aml, gydag ymatebwyr yn gofyn i'r Ymchwiliad ystyried goblygiadau'r cyfyngiadau ar ymweliadau ôl-enedigol bydwraig yn y cnawd ac iechyd, a'r effaith ar ddatblygiad cymdeithasol a chorfforol babanod o ryngweithio cyfyngedig y tu allan i'r cartref yn ystod cyfnodau clo. Cododd ymatebwyr hefyd bryderon am yr effaith iechyd meddwl ar rieni o brofiadau anodd yn ystod beichiogrwydd - megis mynychu sganiau a rhoi genedigaeth heb gymorth partner yn bresennol.

Yng ngolau'r pwysau barn llethol yn ystod yr ymgynghoriad, mae'r Farwnes Hallett yn cytuno y dylai'r Cylch Gorchwyl gael ei ddiwygio i ganiatáu ystyriaeth ehangach yn benodol o'r effaith ar blant a phobl ifanc. Mae hi **felly'n argymell cynnwys y meysydd ystyriaeth penodol canlynol o fewn nod cyntaf yr Ymchwiliad, yn y Cylch Gorchwyl:**

- **yr effaith ar *blant a phobl ifanc, gan gynnwys iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol;***
- ***adddysg a darpariaeth blynyddoedd cynnar; a***
- ***gofal cynenedigol ac ôl-enedigol.***

Roedd nifer o gyfeiriadau penodol nad oes angen eu cynnwys yn y Cylch Gorchwyl (er enghraifft, ar blant mewn llety diogel), oherwydd y bydd yr ychwanegiadau a

gynigir yn rhoi'r awdurdod i'r Ymchwiliad ymchwilio'n llawn i faterion pryder a gafodd eu codi.

## Rheoli'r sectorau iechyd a gofal yn ystod y pandemig

Roedd rheoli'r pandemig o fewn y sectorau iechyd a gofal yn thema a gafodd ei phwysleisio'n eang o fewn yr ymgynghoriad. Bydd llawer o'r materion sy'n cael eu codi yn cael eu cwmpasu eisoes gan adrannau'r Cylch Gorchwyl sy'n cyfeirio at '*ymateb y sector iechyd a gofal ledled y DU*' — er enghraifft, materion a godwyd ynglŷn â darpariaeth PPE, yr effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd heb fod ar gyfer Covid, a phriodolrwydd y mesurau a gymerir mewn cartrefi gofal.

**Gofal a ddarparwyd y tu allan i gartrefi gofal**

Nododd ymatebion i'r ymgynghoriad yn aml nad oedd yr adran o'r Cylch Gorchwyl yn cyfeirio at *'reolaeth y pandemig mewn cartrefi gofal a lleoliadau gofal eraill'* yn ddigon penodol am yr hyn sydd yng nghwmpas *'lleoliadau gofal eraill'.*

Nododd ymatebwyr fod y mwyafrif llethol o ofal yn cael ei ddarparu gan aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gymdogion heb eu talu sy'n darparu cymorth i unigolyn agored i niwed na fyddai'n gallu ymdopi heb y cymorth hwnnw., Cafodd y pwynt hwn ei wneud â phwyslais neilltuol mewn cyfarfodydd â theuluoedd mewn profedigaeth. Yng nghyfrifiad 2011 roedd 6.5 miliwn o ofalwyr di-dâl yn y DU, ond credir bod y ffigur hwnnw wedi tyfu'n sylweddol ers hynny, ac yn enwedig dros gwrs y pandemig. Mae ymatebwyr wedi gofyn i'r Ymchwiliad archwilio'r effaith mae'r pandemig wedi cael ar ofalwyr di-dâl, yn ogystal â materion fel eu mynediad at PPE.

Mae'r Farwnes Hallett **yn cytuno y dylai cyfeiriad mwy penodol fod, ac felly mae'n argymell ychwanegu at y nod cyntaf yn y Cylch Gorchwyl:**

- ***gofal yn y cartref, yn cynnwys gan ofalwyr di-dâl;***

Nododd ymatebwyr eraill i'r ymgynghoriad eu bod yn teimlo nad yw'n glir a yw'r cyfeiriad at '*leoliadau gofal eraill*' yn cynnwys gwasanaethau gofal eraill y tu allan i gartrefi gofal preswyl — er enghraifft, gwasanaethau byw â chymorth, gwasanaethau seiliedig ar y gymuned, a gofal seibiant. Teimlai ymatebwyr fod y geiriad drafft yn cynnwys gwasanaethau gofal a ddarperir i bobl hŷn yn glir ond ei fod mewn perygl o fethu gwasanaethau gofal a ddarperir i bobl oed gweithio sy'n agored i niwed.

Bwriedir i'r cyfeiriad at 'leoliadau gofal eraill' fod yn ddigon eang i ganiatáu archwilio unrhyw leoliad yn ogystal â chartrefi gofal preswyl. Gallai rhestru pob lleoliad gofal posibl beryglu hepgor lleoliad mae'r Ymchwiliad yn penderfynu'n ddiweddarach ei fod yn dymuno'i archwilio, ond nad yw'n gallu gwneud hynny oherwydd nad yw wedi

cael ei restru. Nid yw'r Farwnes Hallett **felly'n argymell bod y cyfeiriad at '*leoliadau gofal eraill*' yn cael ei newid.**

Yn ystod yr ymgynghoriad clywsom bryderon hefyd am ddarpariaeth gofal lliniarol i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Nododd ymatebwyr y cynnydd sylweddol mewn marwolaethau o fewn cartrefi preifat yn ysrod y pandemig a chodon nhw bryderon fod atal llawer o wasanaethau yn ystod cyfnodau clo wedi golygu bod rhai pobl wedi marw heb reolaeth poen na gofal personol digonol.

Mae'r ymchwiliad i farwolaethau gormodol gartref yn cael ei gwmpasu o fewn cwmpas y Cylch Gorchwyl drafft, o dan '*canlyniadau'r pandemig ar ddarpariaeth ar gyfer cyflyrau ac anghenion heb fod yn berthynol i COVID*'. Nid yw'r Farwnes Hallett **felly'n argymell diwygio'r Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r mater hwnnw.**

**Ymateb y gwasanaethau GIG 111 a 999**

Yn ystod yr ymgynghoriad clywsom bryderon, yn enwedig gan y rhai mewn profedigaeth, am gapasiti'r gwasanaeth GIG 111 i ymateb i'r swm o alwadau roedd yn eu derbyn, ac addasrwydd y cyngor diagnostig oedd yn cael ei roi dros y teleffon a thrwy wsanaethau 111 ar-lein.

Nododd ymatebwyr bryderon hefyd am yr amser ymateb i wasanaethau ambiwlans brys,ac anghysonderau ymddangosiadol yn y broses gwneud penderfyniadau a fyddai gwasanaethau ambiwlans yn mynd â rhywun â symptomau Covid i ysbyty.

Mae'r Farwnes Hallett **yn cytuno y dylai'r materion hyn gael eu hadlewyrchu yn y Cylch Gorchwyl, ac mae'n argymell ychwanegu'r testun canlynol o fewn y nod cyntaf:**

- ***Cyswllt cyntaf â gwasanaethau cyngor gofal iechyd swyddogol megis 111 a 999***

**Lleoliadau prif ofal**

Nododd llawer o ymatebwyr ei bod yn aneglur o'r Cylch Gorchwyl drafft a oedd prif leoliadau iechyd - megis Meddygfeydd Teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddiaeth ac optometreg - yn cael eu cynnwys yng nghwmpas yr Ymchwiliad. Er ei bod hi'n ystyried y rhain i gael eu cynnwys o dan y pennawd *'Ymateb y sector iechyd a gofal ledled y DU, gan gynnwys…'*, mae'r Farwnes Hallett **yn cytuno y byddai hyn yn elwa o gael ei wneud yn fwy eglur, ac mae hi'n argymell ychwanegu at yr adran honno:**

- ***rôl lleoliadau prif ofal fel Meddygfeydd Teulu;***

**Profi'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol**

Mae ysytyriaeth o brofi gweithlu yn cael ei gynnwys o fewn y Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y sector gofal iechyd, ond nid yw'n cael ei gynnwys wrth gyfeirio at y sector gofal. **I sicrhau cysondeb, mae'r Farwnes Hallett yn argymell newid y testun i:**

> ***'rheoli'r pandemig mewn cartrefi gofal a lleoliadau gofal eraill, gan gynnwys atal a rheoli heintiad, trosglwyddo preswylwyr i ac o gartrefi, triniaeth a gofal preswylwyr, cyfyngiadau ar ymweld, profi'r gweithlu a newidiadau i archwiliadau;'***

## Strategaeth gyfathrebu'r llywodraeth a rôl y cyfryngau

Thema allweddol o ymatebion yr ymgynghoriad oedd y ffordd y cyfathrebodd y llywodraeth â'r cyhoedd yn ystod y pandemig, a'r rôl y chwaraeodd y cyfryngau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, mewn lledaenu gwybodaeth yn ogystal â chamwybodaeth.

**Cyfathrebu negeseuon y llywodraeth**

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad wedi codi cwestiynau am y ffordd roedd penderfyniadau'r llywodraeth yn cael eu cyfathrebu i'r cyhoedd. Gofynnodd ymatebwyr i'r Ymchwiliad ystyried sut gafodd ystadegau a data eu defnyddio o fewn briffiadau'r llywodraeth i esbonio penderfyniadau'r llywodraeth a pha mor effeithiol y cafodd agweddau o ansicrwydd gwyddonol a risg eu cyfathrebu i'r cyhoedd.

Roedd llawer o ymatebwyr hefyd am i'r Ymchwiliad ystyried defnydd y llywodraeth o wyddoniaeth ymddygiadol a thechnegau 'pwniad bach' o fewn ei negeseuon cyhoeddus, gyda'r canfyddiad fod effaith negyddol ar iechyd meddwl y boblogaeth gan ymagwedd gyfathrebu yn seiliedig ar ofn. Roedd cyfeiriadau niferus hefyd yn yr ymatebion at gamwybodaeth a chynllwyniau.

Mae'r rhain oll yn faterion rydym yn eu hystyried sy'n cael eu cwmpasu'n ddigonol o fewn y Cylch Gorchwyl drafft, o dan y pennawd *'sut gafodd penderfyniadau eu gwneud, eu cyfathrebu a'u gweithredu'*. Nid yw'r Farwnes Hallett **felly'n argymell diwygio'r Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r materion hyn.**

Roedd llawer o'r ymatebion a rannwyd â'r Ymchwiliad yn canolbwyntio ar y cynllun brechu. Yn ystyriaeth yr Ymchwiliad o'r cynllun brechu, byddwn yn ystyried pob agwedd o gyflwyno'r brechlyn, gan gynnwys adweithiau anffafriol a sgîl-effeithiau yn ogystal â digonolrwydd trefniadau ar gyfer y fath achosion.

Mae'r Farwnes Hallett **yn argymell adlewyrchu ystyriaeth o effaith brechlynnau trwy ddigwygio'r Cylch Gorchwyl i adlewyrchu:**

- ***datblygiad, darpariaeth ac effaith therapiwteg a brechlynnau;***

## Rôl arbenigwyr, cynghorwyr, gwyddoniaeth a data mewn ffurfio ymateb y Llywodraeth i'r pandemig.

Thema arwyddocaol o'r ymgynghoriad oedd rôl arbenigwyr a chynghorwyr o fewn proses gwneud penderfyniadau'r llywodraeth, a chadernid data a thystiolaeth wyddonol a ddefnyddiwyd. Nododd ymatebwyr yn neilltuol rôl y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar gyfer Argyfyngau (SAGE) a'i is-grwpiau, megis y Grŵp Gwyddonol Pandemig Ffliw ar Fodelu (SPI-M), yn codi materion fel:

- Sut gafodd arbenigwyr a chynghorwyr eu dewis, gan gynnwys ehangder arbenigedd a demograffeg aelodau;
- Cadernid y dystiolaeth wyddonol yn llunio mesurau fel y 'rheol dwy fetr' a'r 'rheol chwech';
- Pa mor aml gafodd y cyngor a ddarparwyd gan SAGE a'i is-grwpiau ei anwybyddu.

Nododd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd y gymuned ymchwil i'r pandemig, ac yn enwedig yn ystod camau cynnar yr ymateb.

Er ei bod hi'n ystyried bod y fath faterion wedi'u bwriadau i gael eu cynnwys yn y Cylch Gorchwyl presennol, mae'r Farwnes Hallett **yn cynnig cryfhau'r iaith yn y Cylch Gorchwyl i ddarllen:**

- ***argaeledd a defnydd data, ymchwil a thystiolaeth arbenigol***

### Tryloywder a chadw cofnodion

Yn ystod y broses ymgynghori rydfym wedi clywed pryderon am sut roedd penderfyniadau oedd yn cael eu gwneud gan y llywodraeth yn cael eu cofnodi, gydag ymatebwyr yn gofyn i'r Ymchwiliad ymchwilio i bryderon fod penderfyniadau gweinidogol yn cael eu gwneud trwy gyfrifon e-bost preifat a negeseuon WhatsApp ac nad oedd yn cael eu cofnodi mewn cxofnodion adrannol swyddogol.

Mae'r Cylch Gorchwyl drafft yn cynnwys ymchwilio i '*sut gafodd penderfyniadau eu gwneud, eu cyfathrebu a'u gweithredu*'. Mae'r Farwnes Hallett **yn cytuno y gall hyn gael ei egluro trwy ddiwygio'r testun i:**

- ***sut gafodd penderfyniadau eu gwneud, eu cyfathrebu, eu cofnodi a'u gweithredu***

## Effaith y pandemig a'i ymateb ar iechyd meddwl a llesiant

Rydym wedi clywed yn helaeth trwy gydol y broses ymgynghori am yr effaith mae'r pandemig wedi cael ar iechyd meddwl. Roedd rhai o'r materion a amlygwyd trwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

- **Ystyriaethau iechyd meddwl mewn gwneud penderfyniadau** — er enghraifft, y graddau y cafodd yr effaith ar iechyd meddwl ei ystyried wrth gyflwyno cyfyngiadau newydd, a'r graddau yr oedd darpariaethau'n cael eu gwneud i gefnogi iechyd meddwl cyn i gyfyngiadau gael eu cyflwyno.

- **Twf mewn problemau iechyd meddwl yn ystod y pandemig** — er enghraifft, deall graddau'r gorbryder ac unigrwydd a brofwyd yn ystod y pandemig, a'r effaith neilltuol a brofwyd gan grwpiau fel yr henoed, yr anabl, a rhoddwyr gofal.

- **Darpariaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn cynlluniau adfer** — er enghraifft, deall y cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael ag ôl-groniadau mewn galw am wasanaethau iechyd meddwl.

Nid oedd y Cylch Gorchwyl drafft yn cynnwys cyfeiriad manwl at iechyd meddwl yn gyffredinol, ac er i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl gael ei ystyried i fod o fewn '*canlyniadau'r pandemig ar ddarpariaeth ar gyfer cyflyrau ac anghenion heb fod yn berthynol i COVID*', ac y byddai mater iechyd meddwl wedi cael ei drafod yng nghyd-destun categorïau penodol o bobl, ni fyddai hyn wedi caniatáu'n ffurfiol am ymchwiliadau iechyd meddwl ehangach o'r pandemig sydd ddim yn uniongyrchol berthynol i ddarpariaeth y gwasanaethau.

**Mae'r Farwnes Hallett yn cytuno y dylai'r Cylch Gorchwyl gynnwys cyfeiriad penodol at effaith iechyd meddwl y pandemig ac felly mae'n argymell eu fod yn cael ei ddiwygio i gynnwys:**

- ***yr effaith ar iechyd meddwl y boblogaeth, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini a gafodd eu niweidio'n arwyddocaol gan y pandemig;***

## Costau economaidd y pandemig a'i ymateb, a rôl dadansoddiad cost-budd yn y cyfnodau clo a phenderfyniadau cau eraill.

Y thema allweddol olaf a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad oedd effaith economaidd y pandemig. yn nhermau'r effaith ar sectorau penodol o'r economi, yn ogystal â'r dadansoddiad o gostau a buddion polisïau a chyfyngiadau a gyflwynwyd yn ystod cwrs yr ymateb i'r pandemig.

**Dadansoddiad ar sail sector**

Trwy'r broses ymgynghori rydym wedi clywed oodi wrth ystod eang o grwpiau yn cynrychioli gwahanol sectorau o'r economi, yn ogystal ag undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr yn y sectorau hynny. O'r ymatebwyr hynny, gofynnodd llawer i'r Ymchwiliad gwblhau dadansoddiad 'plymiad dwfn' o effaith y pandemig ar eu sector, ac i adnabod sut allai adferiad y sector gael ei gynorthwyo orau.

Er enghraifft, gofynnodd ymatebwyr yn y sector lletygarwch i'r Ymchwiliad ystyried effaith y mesurau yn effeitio ar eu sector yn benodol, megis y rheol 'pryd bwyd sylweddol', a mynediad i leoliadau yn dibynnu ar brawf o statws brechu neu ganlyniadau prawf llif unffordd. Yn yr un modd, roedd ymatebwyr yn y sector teithio a thwrsitiaeth yn awyddus i'r Ymchwiliad ymchwilio i effaith cyfyngiadau a osodwyd ar deithio rhyngwladol ar gyfnodau amrywiol o'r pandemig. Clywsom bryderon hefyd am brofiadau gweithwyr yn yr 'economi gig' fel y'i gelwir - er enghraifft, glanhawyr, cludwyr parseli a gyrwyr danfon bwyd parod - gyadg ymatebwyr yn nodi bod natur fregus a thâl isel eu cyflogaeth, ynghyd â'r diffyg tâl salwch, yn aml yn golygu na allai gweithwyr oedd yn profi symptomau Covid fforddio i hunanynysu. Cafodd effaith y pandemig ar yr hunangyflogedig ei godi hefyd, yn enwedig mewn perthynas â'r graddau o gymorth ariannol iddynt.

Ar draws pob sector clywsom bryderon am amseroldeb a phriodolrwydd cyfarwyddyd a roddwyd i fusnesau, ac am yr anawsterau a achoswyd gan amrywiadau mewn cyfarwyddyd rhwng Llywodraeth y DU, y Gweinyddiaethau Datganoledig, ac awdurdodau lleol unigol.

Mae'r Ymchwiliad yn bwriadu archwilio'r materion hyn, profiad amrywiaeth o sectorau yn ogystal ag effaith ymyriadau economaidd ehangach o dan y pennawd '*yr ymateb economaidd i'r pandemig*'. Bydd hefyd yn ystyried profiadau'r gweithwyr mewn amrywiaeth o sectorau trwy ystyried ' *profiadau ac effaith ar weithwyr sector iechyd a gofal, a gweithwyr allweddol eraill, yn ystod y pandemig*.' Bydd yr ymatebion diffuant niferus ar y pwnc hwn yn ffurfio'r ffordd y byddwn yn cynllunio ac yn gweithredu'r ymchwiliad i effaith economaidd y pandemig.

Er ei bod yn cytuno y bydd y cyfeiriadau presennol yn caniatáu ymchwiliad i'r materion hyn, mae'r Farwnes Hallett yn cytuno bod angen mwy o eglurder ac mae hi'n **argymell dau ychwanegiad at y Cylch Gorchwyl i sicrhau bod teithio a thwristiaeth, a'r hunangyflogedig, yn cael eu hystyried yn benodol:**

- cau ac ailagor y sectorau lletygarwch, manwerthu, chwaraeon a hamdden a theithio a thwristiaeth, mannau addoli, a sefydliadau diwylliannolt;
- ***cymorth i fusnesau, swyddi a'r hunangyflogedig, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, y Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth, cynlluniau benthyciadau, rhyddhad trethi busnes a grantiau;***

**Rôl dadansoddiad cost-budd mewn gwneud penderfyniadau.**

Cwestiynodd llawer o ymatebwyr a fodelodd y llywodraeth y costau a buddion yn gysylltiedig â'r mesurau'n cael eu cyflwyno ar bob cam o'r pandemig yn llawn, fel y byddai'n digwydd yn arferol wrth ystyried polisïau llywodraeth newydd.

Er y codwyd hyn yn bennaf mewn perthynas â chyflwyno ymyriadau heb fod yn fferyllol megis cyfnodau clo, cwestiynodd ymatebwyr hefyd a oedd dadansoddiad tebyg wedi cael ei gwblhau i fesurau economaidd megis y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (y cynllun 'ffyrlo') a'r ymgyrch 'Bwyta Allan i Helpu'.

Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yn ein hymchwiliadau, ac maen nhw'n cael eu cwmpasu o fewn y Cylch Gorchwyl drafft o dan y pennawd '*sut gafodd penderfyniadau eu gwneud, eu cyfathrebu, a'u gweithredu*'.

## Materion eraill a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Yn ogystal â'r themâu allweddol a gafodd eu hadnabod yn nadansoddiad Alma Economics o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd nifer o faterion eraill sydd wedi cael eu codi sy'n haeddu ystyriaeth o sut maen nhw'n cael eu hadlewyrchu yn y Cylch Gorchwyl drafft.

**Anghydraddoldebau**

Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylai materion perthynol i hil, anabledd a rhywedd gael eu tynnu allan yn benodol yn y Cylch Gorchwyl, yn ogystal â'r geiriad presennnol ynghylch nodweddion gwarchodedig, i sicrhau nad yw materion allweddol sy'n effeithio ar y grwpiau hynny'n cael eu methu. Cafodd pryderon eu codi hefyd fod y geiriad presennol ynghylch nodweddion gwarchodedig yn ymddangos tuag at ddiwedd y Cylch Gorchwyl, gan roi'r canfyddiad ei fod yn ôl-ystyriaeth.

Nododd ymatebwyr hefyd trwy gyfeirio at nodweddion gwarchodedig yn unig, y byddai'r Ymchwiliad mewn perygl o fethu ystyried anghydraddoldebau sydd ddim yn nodweddion gwarchodedig mewn deddfwriaeth, ond sydd fe gredir serch hynny wedi bod yn ffactorau arwyddocaol yn sut gafodd grwpiau gwahanol eu heffeithio gan y pandemig - er enghraifft, incwm ac ansawdd tai.

Mae'r Farwnes Hallett **felly'n argymell diwygio'r geiriad ynghylch nodweddion gwarchodedig i'w wneud yn nod trosfwaol o'r ymchwiliad, ac i ehangu ei ffocws y tu hwnt i nodweddion wedi'u gwarchod yn benodol:**

- ***Wrth gyflawni ei waith, bydd yr Ymchwiliad yn ystyried unrhyw anghydraddoldebau sy'n amlwg yn effaith y pandemig ar gategorïau gwahanol o bobl, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chategorïau cydraddoldeb o dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.***

Mae hi'n cynnig hefyd y dylai hyn ymddangos yn adran gyflwyniadol y Cylch Gorchwyl, er mwyn tanlinellu ei bwysigrwydd. Byddwn yn archwilio materion ynghylch anghydraddoldebau wrth iddynt godi yn ein gwaith, a byddwn yn ystyried lle mae'r effaith hyd yn oed yn fwy i bobl sy'n profi anghydraddoldebau lluosog.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwaith mewn ffordd sy'n hygyrch i grwpiau o dan anfantais ac wedi'u tangynrychioli. Fe wnaethom dderbyn adborth am hygyrchedd y Cylch Gorchwyl drafft a'r deunyddiau ymgynghori a gafodd eu cyhoeddi ar ein gwefan, a byddwn yn gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn cyfathrebu cyn gynted â bod yr ymchwiliad yn cychwyn yn ffurfiol. Mae hyn yn debygol o gynnwys cyfieithu adroddiadau Ymchwiliad a dogfennau allweddol eraill i ieithoedd eraill a siaredir yn gyffredin, a threfnu eu bod ar gael mewn fformatau hygyrch lluosog.

**Hawliau dynol a rhyddid sifil**

Mae thema wedi bod trwy gydol y broses ymgynghori o effaith y pandemig ar hawliau dynol a rhyddid sifil. Cododd ymatebwyr ystod eang o faterion oedd yn cael eu canfod yn cael effaith ar hawliau a ddiogelir o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, gan gynnwys:

- A oedd ymateb cychwynnol y llywodraeth i'r pandemig yn gyson â'r ddyletswydd Erthygl 2 ar y wladwriaeth i gymryd mesurau ataliol priodol i ddiogelu bywydau;

- Gorfodi brechiadau o fewn rhai sectorau, a'r gofynion am ardystio brechlyn ar gyfer teithio rhyngwladol;

- Y rhyngweithio rhwng cau mannau addoli a'r hawl, i ryddid crefydd;

- Effaith gorfodi cyfyngiadau perthynol i Covid ar ryddid ymgynnull, yn enwedig mewn perthynas a phrotestiadau;

- Rhyddid llefaru, yn enwedig mewn perthynas â thynnu sylw at a dileu cynnwys o gyfryngau cymdeithasol a'r gormes canfyddedig ar wyddonwyr a heriodd farn fwyafrifol cyfyngiadau perthynol i Covid.

Roedd llawer o'r ymatebion hyn yn gofyn i'r Ymchwiliad gymhwyso ffocws hawliau dynol penodol i'w ymchwiliadau.

Mae'r Farwnes Hallett yn deall y pryderon ond nid yw'n credu bod angen unrhyw ddiwygiadau ychwanegol i'r Cylch Gorchwyl ar y mater hwn. Bydd cwmpas ac effaith unrhyw hawliau dynol perthnasol a chymwysadwy yn cael eu harchwilio'n llawn ac, o ystyried pwysau'r pryder ar y mater hwn, mae hi wedi dod i'r casgliad y bydd yr Ymchwiliad, wrth gyflawni ei waith, yn mabwysiadu egwyddorion 'PANEL' o Gyfranogaeth, Atebolrwydd, Peidio gwahaniaethu, Grymuso a Chyfreithlondeb, fel y'u defnyddir mewn ymchwiliadau hawliau dynol, i lywio cynllun yr Ymchwiliad.

**Covid Hir**

Cododd ymatebion yr ymgynghoriad bryderon na fydd Covid hir (a elwir weithiau'n symtomau ôl-Covid) yn cael ei ystyried yn ddigonol o fewn ymchwiliadau'r Ymchwiliad.

Mae'r Cylch Gorchwyl drafft yn cwmpasu darpariaeth y sector gofal iechyd *'ar gyfer y rheini sy'n profi COVID hir'*. Byddwn hefyd yn ymchwilio i'r graddau y cafodd risgiau cyslltiedig â Covid hir eu hystyried o dan rannau eraill o'r Cylch Gorchwyl — er enghraifft,bydd ystyriaeth o *'sut gafodd penderfyniadau eu gwneud, eu cyfathrebu, a'r gweithredu'* yn cynnwys ymchwilio i sut gafodd Covid hir ei ystyried mewn penderfyniadau ar weithredu mesurau'r cyfnodau clo.

Nid yw'r Farwnes Hallett **felly'n argymell bod y Cylch Gorchwyl yn gofyn am ddiwygiadau ychwanegol i sicrhau yr ymdrinnir â Covid hir yn ddigonol.**

**Profiad profedigaeth ac angladdau**

Cafodd pryderon am y cymorth a ddarperir i deuluoedd mewn profedigaeth eu codi'n aml yn ystod yr ymgynghoriad. Gofynnodd ymatebwyr i'r Ymchwiliad ymchwilio i effaith iechyd meddwl cyfyngiadau ar ymweld â pherthnasau oedd yn marw mewn ysbytai a chartrefi gofal, ac i gyfyngiadau ar fynychu angladdau - yn enwedig lle na allai angladdau gael eu cynnal yn unol ag arferion diwylliannol neu grefyddol. Nododd ymatebwyr hefyd y diffyg cymorth ariannol i'r rhai mewn profedigaeth a'r adhawlio o ordaliadau mewn budd-daliadau i'r ymadawedig.

Mae'r Farwnes Hallett **yn cytuno y dylai'r materion hyn gael eu hadlewyrchu yn y Cylch Gorchwyl drafft, a bydd y cyfeiriadau ychwanegol sy'n caniatáu i'r Ymchwiliad fynd i'r afael â iechyd meddwl, a grybwyllwyd yn flaenorol, yn rhoi'r cwmpas hwnnw i ni. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau eglurder helaethach, mae hi hefyd yn argymell ychwanegu:**

- **yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant y rhai mewn profedigaeth, gan gynnwys *cymorth ar ôl profedigaeth***

Yn ogystal â llawer o ymatebion pwerus a theimladwy gan bobl a gafodd brofedigaeth yn ystod y pandemig, clywsom hefyd am effaith y pandemig ar y sector marwdai ac angladdau, gydag ymatebwyr yn nodi'r anawsterau a achosir gan adrannau llywodraeth lluosog yn cynhyrchu cyfarwyddyd sy'n effeithio ar y sector ac anghysonderau mewn ymagwedd rhwng llywodraethau'r DU a'r rhai datganoledig. Cafodd yr effaith ar staff o fewn y sector ei chodi hefyd - er enghraifft, anawsterau a wynebwyd mewn cyrchu profion a PPE neu gael eu cydnabod fel 'gweithwyr allweddol'.

Mae'r Farwnes Hallett **yn ystyried bod yr effaith ar y sector marwdai ac angladdau a'u staff yn cael ei chwmpasu'n ddigonol o fewn y Cylch Gorchwyl drafft, ac nid yw, felly, yn argymell unrhyw ddiwygiadau ychwanegol.**

**Mannau addoli**

Rydym wedi clywed oddi wrth grwpiau ffydd am y cyfyngiadau wedi'u gosod ar fannau addoli a'r effaith a gafodd hyn ar gymorth cymunedol, nodi digwyddiadau bywyd fel priodasau ac angladdau, a dathlu gwyliau crefyddol.

Cododd yr ymateb i'r ymgynghoriad bryderon hefyd am y rhyngweithio rhwng cyfyngiadau ar fannau addoli a'r hawliau i ryddid crefydd a rhyddid ymgynnull o dan y Confeniswn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae'r Farwnes Hallett **felly'n argymell i'r Cylch Gorchwyl gael ei ddiwygio i gynnwys:**

- ***cau ac ailagor y sectorau lletygarwch, manwerthu, chwaraeon a hamdden a theithio a thwristiaeth, mannau addoli, a sefydliadau diwylliannol***

**Gorfodi cyfyngiadau cyfnodau clo**

Cafodd gorfodi deddfwriaeth a rheoliadau cysylltiedig â Covid eu codi'n aml yn ystod y broses ymgynghori, gyda phryderon am dôn cyffredinol a chymesuredd yr ymateb

plismona a'r amrywiaeth mewn ymagweddau rhwng gwahanol heddluoedd. Cafodd plismona protestiadau ac o ymgynnull cyhoeddus, a'r effaith gafodd hyn ar ryddid sifil a hawliau dynol eu hawgrymu fel materion y dylai'r Ymchwiliad archwilio.

Gofynnodd sefydliadau hefyd i'r Ymchwiliad ystyried a gafodd cymunedau Du, Asiaid ac Ethnig Leiafrifol eu heffeithio'n anghymesur gan yr ymateb plismona - er enghraifft, a oeddent yn anghymesur o debygol o dderbyn dirwyon yn hytrach na rhybuddion, a'r cynnydd a gafodd ei adrodd am ddefnydd o bwerau 'stopio a chwilio' yn ystod cyfnodau clo.

Mae'r Cylch Gorchwyl drafft yn cynnwys archwilio '*rheolaeth ddeddfwriaethol a rheoleiddiol*'. Er bod hyn wedi cael ei weld bob amser i gynnwys ystyriaeth o'r ffordd y cafodd deddfwriaeth a rheoliadau perthynol i Covid eu gorfodi, mae'r Farwnes Hallett **yn cytuno bod hyn yn gallu cael ei egluro trwy ddiwygio'r testun i:**

- ***rheolaeth ddeddfwriaethol a rheoleiddiol, a gorfodaeth***

**Camdriniaeth ddomestig**

Ni chrybwyllodd y Cylch Gorchwyl drafft yr effaith a gafodd cyfyngiadau'r cyfnodau clo ar gamdriniaeth ddomestig. Rydym wedi clywed oddi wrth sefydliadau'n gweithio â dioddefwyr camdriniaeth ddomestig y cynyddodd amlder yn ogystal â difrifoldeb camdriniaeth ddomestig yn ystod y pandemig, ac yn enwedig yn ystod cyfnodau clo.

Clywsom hefyd y gwnaeth natur cyfyngiadau cyfnodau clo hi'n anoddach i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig gyrchu cymorth gan elusennau a chymunedau, ac na dderbyniodd y gwasanaethau hynny gymorth ariannol digonol i'w galluogi i ddiwallu'r galw am wasanaethau ar ôl i gyfyngiadau cyfnodau clo ddod i ben.

Mae'r Farwnes Hallett **yn cytuno y dylai effaith cyfyngiadau'r cyfnodau clo ar ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig gael ei hystyried yn y Cylch Gorchwyl, ac mae'n argymell ei ddiwygio i gynnwys:**

- ***diogelu a chynorthwyo dioddefwyr camdriniaeth ddomestig***

**Rôl llywodraeth leol a'r sectorau gwirfoddol a chymunedol**

Teimlai ymatebwyr i'r ymgynghoriad nad oedd gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau gan awdurdodau lleol wedi'i gydnabod yn ddigonol yn y Cylch Gorchwyl drafft - yn enwedig o ystyried eu rôl arweiniol mewn meysydd fel gofal cymdeithasol oedolion a phlant. Clywsom hefyd fyfyrdodau cadarnhaol ar effeithiolrwydd cydlynu rhwng Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol - er enghraifft,

mewn mynd i'r afael â digartrefedd a chysgu allan yn ystod y pandemig - ond hefyd pryderon am bolisïau a gafodd eu 'gorfodi' ar awdurdodau lleol.

Nododd llawer o ymatebion i'r ymgynghoriad fod elusennau a sefydliadau nid-er-elw yn y sector wirfoddol a chymunedol hefyd wedi chwarae rôl allweddol yn yr ymateb i'r pandemig, gan gynnwys cynnull gwirfoddolwyr ac adeiladu ymddiriedaeth mewn cymunedau ar y cyrion i gynorthwyo a blaenoriaethau llywodraeth, megis cyflwyno'r brechlyn. Cafodd pryderon eu codi, fodd bynnag, ynghylch cysondeb ac amseroldeb ymwneud y sector â chynllunio a gwneud penderfyniadau a graddau ac amseroldeb cymorth ariannol i'r sector.

Mae'r Farwnes Hallett **yn cytuno y dylai rolau llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol a chymunedol gael eu hadlewyrchu'n eglurach o fewn cwmpas y Cylch Gorchwyl, ac mae'n argymell ychwanegu (yn yr adran gyntaf, ar wneud penderfyniadau):**

- ***cydweithio rhwng llywodraeth ganolog, gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau rhanbarthol a lleol, a'r sector gwirfoddol a chymunedol;***

**Ac, yn yr adran ymateb economaidd:**

- ***cyllid ychwanegol i'r sector gwirfoddol a chymunedol***

***Newidiadau eraill***

***Mae'r Farwnes Hallett wedi argymell nifer o newidiadau eraill. Arweiniodd ei phenderfyniad i gynyddu amlygrwydd a gweladwyedd ein ffocws ar anghydraddoldebau trwy ei symud uwchben nodau'r Ymchwiliad ati yn gwneud yr un peth ar gyfer pob ystyriaeth arall fydd yn rhedeg trwy waith yr Ymchwiliad. Mae hi felly'n argymell datgan yr holl ystyriaethau fydd yn rhedeg trwy waith yr Ymchwiliad o flaen dau nod yr Ymchwiliad. Yn olaf, mae hi wedi argymell nifer o newidiadau bach o ran arddull.***

## Cwestiwn 2: Pa faterion neu bynciau ddylai'r Ymchwilad edrych arnynt gyntaf?

Y themâu wedi'u pwysleisio fwyaf roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad am i'r Ymchwiliad archwilio gyntaf oedd:

- Effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc
- Rheoli'r ymateb yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol
- Defnydd ymyriadau heb fod yn fferyllol fel cyfnodau clo
- Rôl arbenigwyr a chynghorwyr. a'r defnydd o ddata a gwyddoniaeth, ym mhenderfyniadau'r Llywodraeth.

Nid er syndod, roedd tuedd i bobl flaenoriaethu'r meysydd roedd ganddynt bryder neilltuol amdanynt, ac wrth gynllunio ac ystyried y ffordd y bydd yr Ymchwiliad yn cael ei gynnal ynddi, bydd y safbwyntiau a roddir yn helpu i ffurfio'r drefn y byddwn yn ystyried materion ynddi. Er ei bod yn gynamserol i wneud penderfyniadau ar union drefn ein hymchwiliadau cyn penderfyniad y Prif Weinidog ar y Cylch Gorchwyl terfynol, rydym yn bwriadu amlinellu rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn bwriadu cynnal yr ymchwiliad dros yr haf ynddi. Byddwn yn darparu diweddariadau rheolaidd.

## Cwestiwn 3: A ddylai'r Ymchwiliad osod dyddiad diwedd arfaethedig ar gyfer ei wrandawiadau cyhoeddus?

Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gryf o blaid yr Ymchwiliad yn gosod dyddiad diwedd ar gyfer ei wrandawiadau cyhoeddus.

Mewn trafodaethau am y cwestiwn hwn mewn digwyddiadau ymgynghori, cydnabu ymatebwyr y tyndra cynhenid rhwng yr Ymchwiliad yn archwilio pob agwedd unigol o'r pandemig mewn manylder fforensig a'r Ymchwiliad yn gallu gwneud canfyddiadau mewn dull amserol. Ar ôl pwyso a mesur, ffafriai ymatebwyr i'r Ymchwiliad osod cwmpas clir ac amserlen wedi'i chynllunio'n dynn. Croesawodd ymatebwyr yr ymrwymiad yn y Cylch Gorchwyl drafft i'r Ymchwiliad gyhoeddi adroddiadau interim wrth iddo symud ymlaen, i helpu sicrhau bod argymhellion yn cael eu hadnabod a'u gweithredu cyn gynted â phosibl.

Fodd bynnag, fel y gwnaethom nodi ar ddechrau'r adroddiad hwn, bethh bynnag y bo union natur y Cylch Gorchwyl terfynol, mae graddfa'r materion y bydd yr Ymchwiliad yn eu hystyried yn enfawr, ac yn anochel bydd materion na chafodd eu rhag-weld yn codi wrth gynnal yr ymchwiliad. Byddwn hefyd yn dibynnu'n drwm ar dystion yn darparu tystiolaeth i ni mewn dull amserol a threfnus. Mae'r ffactorau hyn yn ychwanegu at yr her o ddarparu gwrandawiadau cyhoeddus amserol ac, o ganlyniad, canfyddiadau ac adroddiadau.

Rydym yn bwriadu rhoi rhagor o wybodaeth am y ffordd y bydd yr Ymchwiliad yn cael ei gynnal, gan gynnwys sut rydym yn mynd i'r afael â dyddiad diwedd arfaethedig ar gyfer y gwrandawiadau cyhoeddus, dros yr haf gan ragdybio y bydd y Cylch Gorchwyl terfynol wedi cael ei gyhoeddi.

## Cwestiwn 4: Sut ddylai'r Ymchwiliad gael ei gynllunio a'i redeg i sicrhau bod pobl mewn profedigaeth neu'r rheini sydd wedi dioddef niwed neu galedi difrifol o ganlyniad i'r pandemig yn cael gwrandawiad i'w lleisiau?

Clywsom dair prif thema yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn:

- **Sicrhau bof casglu data ac ymgysylltu cyhoeddus o ystod mor eang o bobl â phosibl** — roedd ymatebwyr am i'r Ymchwiliad ddefnyddio ystod o ddulliau i sicrhau cyfranogaeth ehangach, megis fforymau trafod agored, holiaduron ysgrifenedig ac arolygon ar-lein. Cododd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd clywed gan bobl ledled y DU, ac oddi wrth weithwyr proffesiynol yn gweithio'n uniongyrchol â theuluoedd mewn profedigaeth, fel gweithwyr y GIG a threfnwyr angladdau.

- **Pwyslais ar wrando ar brofiadau'r rheini a gafodd eu heffeithio mewn ffyrdd gwahanol, yn ogystal â phobl mewn profedigaeth** — nododd ymatebwyr fod y pandemig wedi effeithio ar bawb, a dylai'r Ymchwiliad sicrhau ei fod yn clywed gan ystod eang o grwpiau a gafodd eu heffeithio, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i bobl ag anableddau, plant, a phobl a gollodd fusnesau.

- **Darpariaeth o amrywiaeth o fynedfeydd cynhwysol a hygyrch mae profiadau personol pobl yn gallu cael eu cynnwys drwyddynt** — roedd ymatebwyr yn awyddus i'r Ymchwiliad ddal profiadau personol mewn lleoliad llai ffurfiol neu gyfreithiol yn hytrach nac adeilad ymchwiliad cyhoeddus arferol. Adnabu'r ymatebion hefyd bwysigrwydd yr Ymchwiliad i fod yn hygyrch i bobl o gefndiroedd gwahanol a'r angen i fynd i'r afael a rhwystrau ymarferol rhag cymryd rhan megis costau gofal plant.

Rydym yn cydnabod na fydd llawer o bobl am ymgysylltu â phroses gwrandawiadau cyhoeddus ffurfiol yr Ymchwiliad, ond byddant serch hynny am sicrhau bod eu lleisiau'n cael gwrandawiad. Rydym wedi ymrwymo i redeg ymarfer gwrando sy'n cyrraedd yn eang fydd yn clywed profiadau pobl sydd wedi dioddef yn ystod y pandemig. Bydd hyn yn cynnwys nid teuluoedd mewn profedigaeth yn unig, ond hefyd grwpiau eraill sydd wedi dioddef, megis myfyrwyr, perchnogion busnes, a

phobl sydd wedi colli ar driniaeth ar gyfer cyflyrau heblaw am Covid. Byddwn yn clywed gan bobl ledled y DU gyfan, a byddwn yn gwneud yr ymarfer gwrando yn hygyrch i grwpiau o dan anfantais.

Rydym yn y cam cynnar iawn o gynllunio'r gwaith hwn a byddwn yn cynnwys pobl a effeithiwyd gan y pandemig yn ei gynllun dros yr haf.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r Farwnes Hallett wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog yn argymell y newidiadau i'r Cylch Gorchwyl a amlinellir yn y ddogfen hon. Fel y gweinidog sy'n noddi ar gyfer yr Ymchwiliad hwn, mater i'r Prif Weinidog fydd penderfynu ar y Cylch Gorchwyl terfynol. Mae'r Farwnes Hallett wedi gofyn i'r Prif Weinidog ystyried ei newidiadau hi ac ymateb cyn gynted â phosibl, er mwyn i'r Ymchwiliad allu cychwyn ei waith yn ffurfiol.

Fel y gwnaethom amlinellu ar ddechrau'r adroddiad hwn, bydd y Cylch Gorchwyl terfynol yn diffinio cwmpas eang yr Ymchwiliad, ond yr hyn fydd yn eistedd oddi tano fydd cyfres o faterion fydd yn cael eu hymchwilio mewn manylder mwy fforensig. Bydd y materion a adnabyddir, a'r ffordd a'r drefn y byddant yn cael eu hymchwilio ynddynt, yn cael eu hamlinellu pan fydd yr Ymchwiliad yn cychwyn yn ffurfiol. Rydym yn gobeithio y bydd hyn cyn gynted â phosibl.

Mae ymchwiliad cyhoeddus ar wahân hefyd wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth yr Alban i archwilio'r ymateb i'r pandemig yn yr Alban. Wrth i'r ddau ymchwiliad gychwyn ar eu gwaith, mae'r ddau wedi ymrwymo i leihau unrhyw ddyblygu ymchwilio, casglu tystiolaeth ac adrodd. O ystyried cymhlethdod yr ymateb i'r pandemig, yn anochel bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng agweddau o'r ymateb a gafodd eu datganoli i Lywodraeth yr Alban a'r rheini a gafodd eu cadw i Lywodraeth y DU a gall fod achlysuron lle bydd angen i Ymchwiliad y DU ystyried yr un materion â'r Ymchwiliad yn yr Alban, hyd yn oed os ydynt yn faterion wedi'u datganoli. Ein nod fydd gweithio gyda'n gilydd i roi trefn ar ystyried y fath faterion.

Cyn gynted ag y bydd Ymchwiliad y DU yn dechrau, bydd swm sylweddol o waith paratoadol i'w wneud cyn y gall gwrandawiadau cyhoeddus sylweddol ddigwydd, gan gynnwys adnabod tystion allweddol a chyfranogwyr craidd, gofyn am ac adolygu symiau mawr o dystiolaeth; comisiynu ymchwil a chynghorwyr arbenigol i ddarparu tystiolaeth arbenigol a thechnegol i'r Ymchwiliad, a chaffael a pharatoi canolfannau gwrandawiadau cyhoeddus o gwmpas y DU. Ar y cam hwn, heb wybod cynnwys y Cylch Gorchwyl terfynol, mae'n anodd bod yn fanwl am beth yn hollol mae'n ei gynnwys a pha mor hir y bydd yn cymryd. Fodd bynnag, mae'r Farwnes Hallett yn bwriadu gwneud datganiad agoriadol cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Prif Weinidog gyhoeddi'r Cylch Gorchwyl terfynol. Bydd hi wedyn yn amlinellu'n fanylach sut y byddwn yn cyflawni ein gwaith a siâp cyffredinol ein hymchwiliadau, gan gynnwys yr hyn y byddwn yn edrych arno yn y lle cyntaf.

# Atodiad: Cylch Gorchwyl a Argymhellir

YMCHWILIAD COVID-19 Y DU
CYLCH GORCHWYL DRAFFT – MAI 2022

Bydd yr ymchwiliad yn archwilio, ystyried ac adrodd ar baratoadau a'r ymateb i'r pandemig yn Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd iwerddon, hyd at ac yn cynnwys dyddiad sefydlu'r Ymchwiliad yn ffurfiol, xx xxxx 2022.

Wrth gyflawni ei waith, bydd yr Ymchwiliad yn:

a) ystyried materion cadwedig a datganoledig ledled y Deyrnas Unedig, yn ôl yr angen, ond bydd yn ceisio lleihau dyblygu ymchwilio, casglu tystiolaeth ac adrodd gydag unrhyw ymchwiliad cyhoeddus arall a sefydlir gan y gweinyddiaethau datganoledig.
b) ystyried unrhyw anghydraddoldebau sy'n amlwg yn effaith y pandemig ar gategorïau gwahanol o bobl, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chategorïau cydraddoldeb o dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998;
c) gwrando ar ac ystyried profiadau teuluoedd mewn profedigaeth ac eraill sydd wedi dioddef caledi o ganlyniad i'r pandemig. Er na fydd yr ymchwiliad yn ystyried achosion unigol o niwed neu farwolaeth yn fanwl, bydd gwrando ar yr adroddiadau hyn yn llunio ei ddealltwriaeth o effaith y pandemig a'r ymateb, ac o'r gwersi i'w dysgu;
d) amlygu lle gall gwersi a gafodd eu hadnabod o barodrwydd a'r ymateb i'r pandemig fod yn gymwysadwy i argyfyngau sifil eraill;
e) ystyried cymariaethau rhyngwladol perthnasol; a
f) chynhyrchu ei adroddiadau (gan gynnwys adroddiadau interim) ac unrhyw argymhellion mewn dull amserol.

Nodau'r Ymchwiliad yw i:

1. **Archwilio'r ymateb i COVID-19 ac effaith y pandemig yn Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd iwerddon, a chynhyrchu adrdoodiad naratif, ffeithiol, gan gynnwys:**

a) Yr ymateb iechyd cyhoeddus ledled y DU, gan gynnwys:
   i) parodrwydd a gwytnwch;
   ii) sut gafodd penderfyniadau eu gwneud, eu cyfathrebu, eu cofnodi, a'u gweithredu;
   iii) gwneud penderfyniadau rhynglywodraethol;
   iv) cydweithio rhwng llywodraeth ganolog, gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau rhanbarthol a lleol, a'r sector gwirfoddol a chymunedol;
   v) argaeledd a defnydd data, ymchwil a thystiolaeth arbenigol;
   vi) rheolaeth a gorfodaeth ddeddfwriaethol a rheolaethol;
   vii) cysgodi a diogelu'r rhai sy'n agored i niwed yn glinigol;
   viii) defnydd cyfnodau clo ac ymyriadau 'anfferyllol' eraill megis cadw pellter cymdeithasol a'r defnydd o orchuddion wyneb;
   ix) profi, olrhain cysylltiadau, ac ynysu;
   x) yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini a gafodd eu niweidio'n arwyddocaol gan y pandemig;
   xi) yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant y rhai mewn profedigaeth, gan gynnwys cymorth ar ôl profedigaeth;
   xii) yr effaith ar weithwyr sector iechyd a gofal a gweithwyr allweddol eraill;

xiii) yr effaith ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol;
xiv) darpariaeth addysg a blynyddoedd cynnar;
xv) cau ac ailagor y sectorau lletygarwch, manwerthu, chwaraeon a hamdden a theithio a thwristiaeth, mannau addoli, a sefydliadau diwylliannol;
xvi) tai a digartrefedd;
xvii) diogelu a chymorth i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig;
xviii) carchar a lleoedd cadw eraill;
xix) y system gyfiawnder;
xx) teithio a ffiniau; a
xxi) diogelu cyllid cyhoeddus a rheoli risg ariannol.

b) Ymateb y sector iechyd a gofal ledled y DU, gan gynnwys:
i) parodrwydd, capasiti cychwynnol a'r gallu i gynyddu capasiti, a gwytnwch;
ii) cyswllt cyntaf â gwasanaethau cyngor gofal iechyd swyddogol megis 111 a 999
iii) rôl lleoliadau prif ofal fel Meddygfeydd Teulu;
iv) rheolaeth y pandemig mewn ysbytai, gan gynnwys atal a rheoli heintiad, brysbennu, capasiti gofal critigol, rhyddhau cleifion, defnydd y penderfyniadau 'Peidiwch â rhoi cynnig ar adfywio cardio-anadlol' (DNACPR), yr ymagwedd at ofal lliniarol, profi'r gweithlu, newidiadau i archwiliadau, a'r effaith ar staff a lefelau staffio;
v) rheoli'r pandemig mewn cartrefi gofal a lleoliadau gofal eraill, gan gynnwys atal a rheoli heintiad, trosglwyddo preswylwyr i ac o gartrefi, triniaeth a gofal preswylwyr, cyfyngiadau ar ymweld, profi'r gweithlu a newidiadau i archwiliadau;
vi) gofal yn y cartref, yn cynnwys gan ofalwyr di-dâl;
vii) gofal cynenedigol ac ôl-enedigol;
viii) caffael a dosbarthu cyfarpar a chyflenwadau allweddol, gan gynnwys PPE a pheiriannau anadlu;
ix) datblygiad, darpariaeth ac effaith therapiwteg a brechlynnau;
x) canlyniadau'r pandemig ar ddarpariaeth ar gyfer cyflyrau ac anghenion heb fod yn berthynol i COVID; a
xi) darpariaeth ar gyfer y rheini sy'n profi COVID hir.

c) Yr ymateb economaidd i'r pandemig a'i effaith, gan gynnwys ymyriadau llywodraeth trwy:
i) gymorth i fusnesau, swyddi a'r hunangyflogedig, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, y Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth, cynlluniau benthyciadau, rhyddhad trethi busnes a grantiau;
ii) cyllid ychwanegol i wasanaethau cyhoeddus perthnasol;
iii) cyllid ychwanegol i'r sector gwirfoddol a chymunedol; a
iv) budd-daliadau a thâl salwch, a chymorth i bobl sy'n agored i niwed.

**2. Adnabod y gwersi i'w dysgu o'r uchod, i ffurfio paratodau'r DU ar gyfer pandemigau'r dyfodol.**